Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Llawlyfr Archwilio

## Archwilio Gwaith Awdurdodau Lleol o Gynnal Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd yng Nghymru

Chwefror 2024

# Rheoli Dogfennau

| Rhif y Diwygiad | Dyddiad Diwygio | Diben y Diwygiad | Crëwyd/Diwygiwyd gan |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 13.05.2020 | Creu'r llawlyfr | C.Sewell/S.Adie |
| 1.1 | 11.05.2022 | Diweddaru a diwygio cyfeiriadau at strwythur sefydliadol. | C Sewell |
| 1.2 | 15.01.2024 | Adolygu'r llawlyfr ar draws y tair gwlad i sicrhau cysondeb. Ychwanegu mwy o fanylion am gynllunio archwiliadau | S Maddox |

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 4
1.1 Cefndir ..... 4
1.2 Diben ..... 4
1.3 Cwmpas ..... 5
1.4 Cyfeiriadau at reoliadau, codau a chanllawiau ..... 5
2. Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio ..... 8
2.1 Rheoli dogfennau ..... 8
2.2 Annibyniaeth a chraffu annibynnol ..... 8
2.3 Cynllunio rhaglenni archwilio ..... 9
2.4 Moeseg a chymhwysedd archwilwyr ..... 10
2.5 Cydgysylltu â systemau archwilio eraill ..... 14
2.6 Y broses gwyno ..... 14
2.7 Bodlonrwydd cwsmeriaid ..... 15
2.8 Gwelliant parhaus ac archwilio cynnil ('Lean') ..... 15
2.9 Adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio ..... 20
3. Y Broses Archwilio ..... 21
3.1 Cynllunio archwiliadau ..... 21
3.2 Cynnal archwiliadau ..... 23
3.3 Adroddiadau archwilio ..... 25
3.4 Archwiliad dilynol ..... 29
Atodiad A – Proses System Archwilio'r ASB yng Nghymru ..... 30
Atodiad B – Proses Graffu'r ASB yng Nghymru ..... 31
Atodiad C – Cynllunio Rhaglenni Archwilio Blynyddol ar sail Risg ..... 32
Atodiad D – Adolygiad o Drefniadau Rheoli'r System Archwilio ..... 33
Atodiad E – Categorïau o Farn Archwilio ..... 35
Atodiad F – Rhestr Termau ..... 36

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Prif ddiben archwiliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)[1] o awdurdodau lleol yw rhoi sicrwydd bod y gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chanllawiau swyddogol.

1.1.2 Diben arall yr archwiliadau rheoleiddiol hyn yw gwirio bod trefniadau a gynlluniwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac asesu a yw'r trefniadau hynny'n addas i gyflawni amcanion y gofynion a'r canllawiau cyfreithiol perthnasol.

1.1.3 Mae system archwilio rheoleiddiol yr ASB yng Nghymru yn cael ei gweithredu gan dîm archwilio sy'n cynnwys Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio, rheolwr archwilio a dau archwilydd.

## 1.2 Diben

1.2.1 Mae'r ASB yn cydnabod bod yr awdurdodau lleol y mae'n eu harchwilio wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd a gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd. Diben y llawlyfr archwilio hwn yw dangos bod yr ASB yn rhannu'r ymrwymiad hwn, a'i bod yn ymdrechu'n barhaus i wella'r modd y mae'r swyddogaeth archwilio yng Nghymru yn darparu lefelau ansawdd sy'n gyson uchel yng nghyd-destun gofynion rheoleiddiol newidiol a'r dirwedd a'r disgwyliadau o ran cynnal rheolaethau swyddogol.

1.2.2 Mae'r llawlyfr archwilio hwn, ynghyd â Siarter Archwilio Rheoleiddiol yr ASB, yn dogfennu'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir yn system archwilio'r ASB yng Nghymru[2] i gynllunio, cynnal, adrodd a dilyn hynt y system ar gyfer cynnal

[1] Ystyr 'archwilio' yw archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig y fath weithgareddau'n cydymffurfio â threfniadau wedi'u cynllunio ac a yw'r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac a ydynt yn addas i gyflawni'r amcanion.

[2] Mae cyfeiriadau at y system archwilio a'r tîm archwilio yn y llawlyfr hwn yn cyfeirio'n benodol at y system a'r tîm yng Nghymru.

rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd yng Nghymru. Ceir siart lif, sy'n crynhoi system archwilio Cymru, yn Atodiad A.

1.2.3 This manual also provides principles and policy information on:

- annibyniaeth
- moeseg a chymhwysedd archwilwyr
- cynllunio ar sail risg
- craffu annibynnol
- boddhad cwsmeriaid
- gwelliant parhaus ac archwilio cynnil
- adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio

## 1.3 Cwmpas

1.3.1 Mae'r llawlyfr archwilio hwn, ynghyd â'r siarter, y polisïau, y prosesau a'r gweithdrefnau y cyfeirir atynt ynddo, yn berthnasol i archwiliadau'r ASB yng Nghymru o'r modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd.

## 1.4 Cyfeiriadau at reoliadau, codau a chanllawiau

1.4.1 Yng Nghymru, rhoddwyd y grym i'r ASB bennu safonau a monitro gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd Awdurdodau Gorfodi o dan adran 12 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999[3] a Rheoliad 7 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009[4].

1.4.2 Cynhelir archwiliadau yn erbyn amrediad o feini prawf, gan gynnwys:

- rheoliadau bwyd anifeiliaid a bwyd Cymru
- rheoliadau bwyd anifeiliaid a bwyd yr UE a gymathwyd
- codau ymarfer statudol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog

[3] Deddf Safonau Bwyd 1999, pennod 28
[4] Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (fel y'u diwygiwyd)

- Polisïau a gweithdrefnau awdurdodau lleol

1.4.3 Nodau trosfwaol cynllun archwilio awdurdodau lleol yr ASB yw:

- helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd drwy hybu trefniadau effeithio ar lefel leol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd
- cynnal a gwella hyder defnyddwyr
- cynorthwyo i nodi a lledaenu arferion da er mwyn hybu cysondeb
- darparu gwybodaeth i helpu i lunio polisi'r ASB
- hyrwyddo cydymffurfiaeth â chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog neu godau ymarfer perthnasol
- darparu modd o nodi tanberfformiad o ran gwaith awdurdodau lleol o ddarparu gwasanaethau ym maes cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid
- hyrwyddo hunan-reoleiddio ac adolygiadau gan gymheiriaid
- nodi gwelliannau parhaus

1.4.4 Mae Cod Ymarfer statudol hefyd ar waith sy'n rhoi cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru eu hystyried wrth orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid neu gyfraith bwyd. Mae'r Cod yn ymwneud â Chymru yn unig. Mae Codau Ymarfer tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd.

1.4.5 Cyhoeddir Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)[5] o dan adran 40 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 24 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006[6], a Rheoliad 6 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009[7], sy'n rhoi'r grym i Weinidogion Llywodraeth Cymru gyhoeddi codau ymarfer sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth honno gan awdurdodau lleol.

1.4.6 Cyhoeddir y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid o dan Reoliad 6 o Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

[5] Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)
[6] Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[7] Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

**Canllawiau'r UE**

1.4.7 Cyhoeddodd yr UE ganllawiau diwygiedig ar weithredu'r darpariaethau ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Erthygl 6 o Reoliad a Gymathwyd (UE) 2017/625 ym mis Chwefror 2021.[8] Mae'r canllawiau hyn yn ceisio disgrifio'r egwyddorion sy'n deillio o Reoliad a Gymathwyd (UE) 2017/625 ynghylch sefydlu systemau archwilio cenedlaethol. Maent yn rhoi arweiniad ar natur a gweithrediad systemau archwilio gan awdurdodau cymwys. Mae'r ASB yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio ei system archwilio.

[8] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=OJ:C:2021:066:FULL&from=EN

# 2. Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio

## 2.1 Rheoli dogfennau

2.1.1 Mae gan yr holl ddogfennau[9] a ddrafftiwyd i'w defnyddio yn system archwilio'r ASB yng Nghymru gyfeiriad unigryw ac maent wedi'u cofnodi yn rhestr yr ASB yng Nghymru o ddogfennau rheoledig yn Atodiad A i'r Weithdrefn Rheoli Dogfennau.

2.1.2 Bob tro y caiff dogfen ei newid, caiff y newid ei gofnodi yn y Rhestr o Ddogfennau a Gweithdrefnau Rheoledig, a geir yn Atodiad A i'r Weithdrefn Rheoli Dogfennau. Dim ond y Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio, yr Uwch-reolwr Archwilio neu'r archwilwyr all wneud newidiadau i ddogfennau system archwilio'r ASB yng Nghymru.

2.1.3 Mae'r holl ddogfennau a restrir yn Atodiad A i'r Weithdrefn Rheoli Dogfennau wedi'u storio ar SharePoint yn y ffolder Dogfennau a Gweithdrefnau Archwilio Rheoledig.

## 2.2 Annibyniaeth a chraffu annibynnol

2.2.1 Mae'r egwyddorion ar gyfer annibyniaeth a'r egwyddorion a'r broses ar gyfer craffu annibynnol yn seiliedig ar ddogfen cyfeirio rhwydwaith y Systemau Archwilio Cenedlaethol[10] – Annibyniaeth a chraffu annibynnol.[11].

**Annibyniaeth**

2.2.2 Mae system archwilio'r ASB yng Nghymru yn dangos annibyniaeth ar bedair lefel:

- Sefydliadol – mandad clir i gynnal ei harchwiliadau

[9] Mae enghreifftiau o ddogfennau'n cynnwys llawlyfrau, gweithdrefnau, prosesau, rhestrau gwirio, a ffurflenni.

[10] Mae rhwydwaith y Systemau Archwilio Cenedlaethol yn rhwydwaith o swyddogion (archwilwyr) o awdurdodau cymwys cenedlaethol, sy'n gyfrifol am berfformiad archwiliadau o systemau rheolaethau swyddogol fel y darperir ar ei gyfer gan Erthygl 6 o Reoliad (CE) Rhif 2017/625. Mae'r rhwydweithiau, sy'n cael eu cadeirio a'u hwyluso gan SANTE F o'r CE, yn cwrdd yn rheolaidd i gyfnewid profiadau wrth weithredu systemau archwilio cenedlaethol ar weithgareddau rheolaethau swyddogol. Yn ystod y sesiynau cyfnewid hyn, y trafodaethau, y gweithdai ac ati, mae'r rhwydwaith yn nodi egwyddorion ac arferion da ac yn cytuno arnynt.

[11] Dogfen Gyfeirio'r Systemau Archwilio Cenedlaethol – Annibyniaeth a chraffu annibynnol

- Swyddogaethol – darparu staff ag adnoddau digonol, sydd â chymwysterau addas
- Proses – yn rhydd rhag dylanwad ar bob lefel o'r system archwilio
- Archwilydd – ymddwyn yn wrthrychol, yn ddiduedd, a datgan gwrthdaro buddiannau pan fo'n briodol

2.2.3 Trwy'r broses graffu annibynnol, caiff annibyniaeth y system archwilio ei herio a'i chadarnhau.

**Craffu annibynnol**

2.2.4 Mae'r broses ar gyfer craffu annibynnol wedi'i dogfennu yn Atodiad B.

## 2.3 Cynllunio rhaglenni archwilio

2.3.1 Bydd yr ASB yng Nghymru yn sefydlu rhaglenni archwilio rheoleiddiol sy'n sicrhau y caiff pob maes gweithgaredd perthnasol ei gynnwys yn ddigonol a phob awdurdod lleol perthnasol ar amlder priodol sy'n seiliedig ar risg dros gyfnod nad yw'n fwy na phum mlynedd.

2.3.2 Mae proses yr ASB yng Nghymru ar gyfer cynllunio archwiliadau rheoleiddiol yn seiliedig ar flaenoriaethu risg mewn cyd-destun archwilio sy'n cynnwys rheolaethau swyddogol, gweithgareddau rheoli cysylltiedig, a meysydd perthnasol eraill. Wrth wraidd yr egwyddorion a'r broses ar gyfer cynllunio rhaglenni archwilio sy'n seiliedig ar risg y mae dogfen gyfeirio rhwydwaith y Systemau Archwilio Cenedlaethol – Cynllunio ar sail Risg ar gyfer Archwiliadau o Reolaethau Swyddogol. Mae proses yr ASB yng Nghymru ar gyfer cynllunio'r archwiliadau blynyddol i'w gweld yn Atodiad C.

2.3.3 Er mwyn penderfynu ar y pynciau i'w harchwilio, caiff ymarfer cynllunio ei gynnal, sy'n cynnwys cydweithwyr polisi a chyflawni o dimau perthnasol yn yr ASB yng Nghymru a'r timau Archwilio Rheoleiddiol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff y pynciau eu dewis ar sail asesiad risg, yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr i nodi meysydd sylweddol o risg ac ansicrwydd, ac ar sail gwybodaeth arall sydd ar gael ar y pryd. Cynhelir y broses gynllunio hon yn

flynyddol. Os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg, caiff y rhaglen archwilio ei hadolygu i sicrhau bod pynciau archwilio'n parhau i fod yn ddilys.

2.3.4 Unwaith y bydd rhaglen archwilio rheoleiddiol wedi'i nodi, caiff nifer yr awdurdodau lleol i'w cynnwys yn y rhaglen ei gyfrifo. Mae'r nifer a gyfrifir wedi'i gynllunio i gynrychioli'r system sy'n cael ei harchwilio. Mae nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys ym mhob rhaglen archwilio yn ystyried y gofyniad i gwmpasu pob awdurdod cymwys dros gyfnod o bum mlynedd.

2.3.5 Ar gyfer pob rhaglen archwilio, bydd awdurdodau lleol yn cael eu dewis drwy ystyried yr amlder priodol ar sail risg ar gyfer awdurdodau lleol unigol, yn ogystal â gwybodaeth arall sydd ar gael, a hynny oll wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i ddadansoddi canfyddiadau archwilio'n effeithiol a gwneud y defnydd gorau ohonynt i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau.

2.3.6 Y ffactorau a gaiff eu hystyried fydd:

- trawstoriad o awdurdodau lleol o wahanol feintiau
- cydbwysedd daearyddol
- gweithgareddau penodol Gweithredwyr Busnesau Bwyd o fewn awdurdodaeth awdurdod lleol mewn perthynas â chwmpas y rhaglen archwilio
- data perfformiad sydd ar gael (gan gynnwys awdurdodau lleol sy'n destun ymyrraeth gan yr ASB)
- amser ers yr archwiliad diwethaf
- er mwyn pennu nifer yr awdurdodau lleol a gaiff eu cynnwys ym mhob rhaglen archwilio, ystyrir y gofyniad i gwmpasu pob awdurdod lleol dros gyfnod o bum mlynedd

## 2.4 Moeseg a chymhwysedd archwilwyr

2.4.1 Mae holl aelodau'r tîm archwilio yn weision sifil, ac felly byddant yn cynnal Cod y Gwasanaeth Sifil.[12].

[12] https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code/the-civil-service-code

### Moeseg archwilwyr

2.4.2 Mae Tabl 1 yn disgrifio'r foeseg[13] a'r ymddygiadau sy'n benodol berthnasol i archwilwyr yr ASB yng Nghymru:

[13] Adran 6: Cod Moeseg Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

**Tabl 1 – Moeseg ac ymddygiadau archwilwyr**

| Moeseg ac ymddygiad |
|---|
| **Uniondeb** – rhaid i archwilwyr gyflawni eu gwaith â gonestrwydd, diwydrwydd a chyfrifoldeb. Ni fyddant yn fwriadol yn rhan o unrhyw weithgaredd anghyfreithlon nac yn cymryd rhan mewn gweithredoedd a allai dwyn anfri ar yr ASB. |
| **Annibyniaeth** - dylai archwilwyr fod yn annibynnol ar y gweithgareddau a archwilir, lle bynnag y bo'n ymarferol, a dylent ym mhob achos weithredu mewn modd sy'n rhydd rhag rhagfarn a gwrthdaro buddiannau. |
| **Gwrthrychedd** - ni fydd archwilwyr yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd nac yn dod yn rhan o berthynas a allai amharu, neu y gellir cymryd eu bod yn amharu, ar eu gallu i gynnal asesiad diduedd. Ni fyddant yn derbyn dim byd a allai amharu, neu y gellir cymryd ei fod yn amharu, ar eu barn broffesiynol. |
| **Cyfrinachedd** - bydd archwilwyr yn ddarbodus wrth ddefnyddio a diogelu gwybodaeth a geir wrth gyflawni eu dyletswyddau. Ni fyddant yn defnyddio gwybodaeth er unrhyw fudd personol nac mewn unrhyw fodd a fyddai'n groes i'r gyfraith neu'n niweidiol i amcanion cyfreithlon a moesegol yr ASB. |

**Cymhwysedd: Hyfforddiant a phrofiad**

2.4.3 Fel personél cymwys a phrofiadol ym maes iechyd yr amgylchedd neu safonau masnach, mae gan bob archwilydd a gyflogir gan yr ASB yng Nghymru wybodaeth ymarferol am fframwaith rheoleiddio bwyd anifeiliaid a bwyd awdurdodau lleol yn y DU. Rhaid iddynt hefyd gael hyfforddiant uwch penodol ar gyfer archwilwyr sy'n rhoi dealltwriaeth iddynt o systemau rheoli archwiliadau a sut i archwilio systemau, er enghraifft rhaid iddynt fod wedi cymryd rhan mewn cwrs hyfforddi aseswyr arweiniol ISO 9000.

2.4.4 Mae archwilwyr yn dangos yr wybodaeth a'r sgiliau cyffredinol sydd eu hangen fel archwilydd, gan gynnwys, egwyddorion, gweithdrefnau a thechnegau

archwilio, a sgiliau rheoli/trefnu. Cyflawnir hyn drwy fod yn aelod o dîm archwilio o dan oruchwyliaeth yr Uwch-reolwr Archwilio.

2.4.5 Asesir datblygiad archwilwyr yn ystod cyfarfodydd bob chwe wythnos. Yn ogystal, yn ôl yr angen, cynhelir sesiynau cyfarfod pwrpasol i drafod:

- cynlluniau ar gyfer rhaglenni archwilio a chynnydd y rhain
- canllawiau archwilio / papurau gwaith Newydd
- newidiadau mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol
- adolygiadau o'r system rheoli archwiliadau

**Arbenigedd technegol**

2.4.6 Mae tîm archwilio'r ASB yng Nghymru yn cynnwys Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio amser llawn, Uwch-reolwr Archwilio a dau archwilydd. Mae'r tîm yn adrodd wrth y Pennaeth Polisi (Safonau) a Diogelu Defnyddwyr. Mae'r Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio, yr Uwch-reolwr Archwilio a'r archwilwyr wedi cael hyfforddiant archwilio, ac mae ganddynt arbenigedd technegol mewn un neu fwy o feysydd polisi bwyd anifeiliaid a bwyd. Mae hyn yn sicrhau bod y tîm archwilio'n cynnwys archwilwyr sydd â'r profiad technegol perthnasol sy'n gymwys i gwmpas yr archwiliad a'r meini prawf ar gyfer pob rhaglen archwilio / ymgysylltiad.

2.4.7 Mae archwilwyr newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan yr Uwch-reolwr Archwilio. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio gwaith archwilwyr hyd nes y bernir, drwy asesiad, eu bod yn gymwys i weithio heb oruchwyliaeth yn unol â gweithdrefn cymhwysedd archwilwyr y tîm.

2.4.8 O bryd i'w gilydd, mae archwilwyr neu arsylwyr sydd wrthi'n datblygu yn cael eu dewis o fannau eraill yn yr ASB neu'n allanol i gymryd rhan mewn rhaglen archwilio / ymgysylltiad. Bydd unrhyw waith a wneir gan archwilwyr sydd wrthi'n datblygu yn cael ei oruchwylio gan yr Uwch-reolwr Archwilio neu un o archwilwyr amser llawn yr ASB yng Nghymru. Gall arsylwyr roi cyngor a barn yn seiliedig ar eu harbenigedd, ond ni chânt eu hystyried yn archwilwyr ac nid ydynt yn cyflawni swyddogaethau archwilydd yn ystod rhaglen archwilio / ymgysylltiad.

## 2.5 Cydgysylltu â systemau archwilio eraill

2.5.1 Mae'r tîm archwilio yn cydnabod bod awdurdodau cymwys eraill yn y DU. Cynrychiolir y tîm archwilio mewn cyfarfodydd cydweithio gyda'r awdurdodau cymwys hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA)
- Safonau Bwyd yr Alban (FSS)
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD)
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban

## 2.6 Y broses gwyno

2.6.1 Mae proses ar waith ar gyfer datrys cwynion gan awdurdodau lleol sy'n deillio o archwiliadau o wasanaethau bwyd anifeiliaid a bwyd a gynhelir gan yr ASB yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r archwilydd arweiniol esbonio'r broses gwyno i'r awdurdod lleol yn ystod cyfarfodydd agor a chloi'r archwiliad. Caiff y broses gwyno, sy'n cynnwys uwchgyfeirio'r gŵyn, ei disgrifio hefyd yn y cynllun archwilio ar gyfer pob rhaglen archwilio.

2.6.2 Cynghorir awdurdodau lleol i godi unrhyw bryderon gyda'r prif archwilydd yn ystod yr archwiliad ar y safle gyda'r nod o ddatrys unrhyw fater ar y pryd.

2.6.3 Os na ellir datrys y broblem gyda'r prif archwilydd, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â Phennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio'r ASB yng Nghymru. Os mai'r Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio yw'r prif archwilydd hefyd, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â'r Pennaeth Polisi (Safonau) a Diogelu Defnyddwyr.

2.6.4 Os bydd anghytundeb ynghylch cynnwys yr adroddiad drafft na ellir ei ddatrys gyda'r tîm archwilio, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â'r Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio neu, o dan amgylchiadau lle mai'r Pennaeth

Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio oedd y prif archwilydd, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â’r Pennaeth Polisi (Safonau) a Diogelu Defnyddwyr.

2.6.5 Os na all y Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio ddatrys y broblem i foddhad yr awdurdod lleol, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â’r Pennaeth Polisi (Safonau) a Diogelu Defnyddwyr. Os bydd y broblem yn dal i fod heb ei datrys i foddhad yr awdurdod lleol, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â Chyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru. Dylid cysylltu â Chyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a’r DU os nad yw Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru wedi gallu datrys y broblem i foddhad yr awdurdod lleol. Os na all Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a’r DU ddatrys y broblem i foddhad yr awdurdod lleol, cynghorir yr awdurdod lleol i gysylltu â Phrif Weithredwr yr ASB, sef y canolwr terfynol yn y sefydliad ar gyfer datrys cwynion a godir gan awdurdodau lleol.

## 2.7 Bodlonrwydd cwsmeriaid

2.7.1 Elfen allweddol o system archwilio’r ASB yng Nghymru yw adborth gan awdurdodau lleol. Mae’r broses yn disgrifio sut y gall awdurdodau lleol roi adborth i’r ASB yng Nghymru ar y system archwilio ac ar ymddygiad y tîm archwilio.

2.7.2 Yng nghyfarfod agoriadol a chloi pob elfen ‘ar y safle’ o archwiliad, rhoddir cyfle i’r rhai a archwilir roi adborth i’r tîm archwilio naill ai’n benodol am y modd y cynhaliwyd yr archwiliad neu am weithgareddau’r ASB yn gyffredinol.

2.7.3 Rhoddir holiadur boddhad/adborth cwsmeriaid, ynghyd â’r adroddiad terfynol, i’r sawl a archwilir. Gofynnir i’r sawl a archwilir lenwi’r holiadur a’i ddychwelyd.

2.7.4 Mae canlyniadau holiaduron boddhad cwsmeriaid yn cael eu casglu a’u hystyried fel rhan o’r adolygiad o drefniadau rheoli’r system archwilio a’r prosesau craffu annibynnol.

## 2.8 Gwelliant parhaus ac archwilio cynnil (‘Lean’)

2.8.1 Mae’r tîm archwilio wedi ymrwymo i wella prosesau cyfredol o fewn y system archwilio ac i chwilio am ffyrdd arloesol o wneud y system archwilio’n fwy

effeithiol. Mae hefyd yn bwysig dangos bod y system archwilio'n gallu ychwanegu gwerth at systemau cynnal rheolaethau swyddogol yr awdurdodau lleol ac at bolisïau a chanllawiau'r ASB.

2.8.2 Mae'r tîm archwilio'n ystyried gwelliannau parhaus ac egwyddorion, offer a thechnegau cynnil i helpu i gyflawni hyn. Defnyddir technegau gwella parhaus drwy gydol y broses archwilio, ond yn fwy penodol ym mhob un o'r camau canlynol:-

- cynllunio archwiliadau ar sail risg
- holiadur boddhad cwsmeriaid / adborth
- adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio
- craffu annibynnol

**Archwilio cynnil ('Lean')**

2.8.3 Mae'r tîm archwilio yn ceisio defnyddio egwyddorion, offer a thechnegau cynnil[14] ar gyfer pob proses yn y system archwilio, er enghraifft:

**Tabl 2 – Cymhwyso egwyddorion cynnil at waith archwilio**

| Cymhwyso egwyddorion cynnil |
|---|
| Timau archwilio sydd ag adnoddau priodol – Defnyddio archwilwyr hyfforddedig sydd â'r cymhwysedd technegol sy'n gymwys i gwmpas a meini prawf yr archwiliad, pan fyddant ar gael. Mae hyn yn sicrhau defnydd targededig, effeithiol ac effeithlon o adnoddau technegol ac archwilwyr. |
| Rhaid i'r cyfathrebu fod yn glir ac o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt – Wrth gyfathrebu cyn, yn ystod ac ar ôl archwiliadau â'r sawl a archwilir, dylid sicrhau bod y cyfathrebu hwn, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn glir. Dylid cyfathrebu mewn fformat sy'n osgoi dryswch a |

[14] https://www.lean.org/WhatsLean/

chamddehongli. Dylid hefyd gyflawni disgwyliadau ehangach rhanddeiliaid wrth gyfathrebu.

Dylai'r tîm archwilio fod yn agored ac yn dryloyw – Dylai'r tîm archwilio gyfleu'r wybodaeth ganlynol yn glir i'r sawl a archwilir a rhanddeiliaid perthnasol cyn dechrau ar y gwaith archwilio:

- y rhesymau dros gynnal rhaglen archwilio
- cwmpas ac amcanion y rhaglen archwilio
- y rhesymau dros ddewis y sawl a archwilir
- y broses archwilio gan gynnwys adrodd a gwaith dilynol

Mae hyn hefyd yn cynnwys rhoi i'r sawl a archwilir y dogfennau archwilio (er enghraifft, cynllun archwilio, rhestr wirio, aide-mémoire) a ddefnyddir gan y tîm archwilio yn ystod archwiliad.

Allbynnau archwilio wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion archwilio – Rhaid i'r tîm archwilio allu dangos gwerth ychwanegol a chyflawni'r hyn a ddisgwylir gan gwsmeriaid / y sawl a archwilir ar gyfer pob rhaglen archwilio. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r sawl a archwilir / rhanddeiliaid ehangach allu ystyried allbynnau'r archwiliad (canfyddiadau, casgliadau, adroddiadau, argymhellion, arferion da, lledaenu materion yn ehangach) a barnu bod yr archwiliad wedi bod o werth ac wedi'i gynnal i'w boddhad. Mesurir hyn trwy'r holiaduron boddhad cwsmeriaid a'r prosesau craffu annibynnol.

Dewis y dull archwilio mwyaf priodol – Rhaid i'r tîm archwilio fod yn llym wrth ddewis y dulliau archwilio i'w defnyddio yn ystod archwiliad. Nid yw defnyddio'r un dulliau ar gyfer pob rhaglen archwilio yn ddefnydd effeithiol nac effeithlon o adnoddau ar gyfer y tîm archwilio na'r sawl a archwilir.

Mae canfyddiadau archwilio, adroddiadau a chyfathrebu cyffredinol yn ddefnyddiol – Rhaid i ganfyddiadau archwilio fod yn effeithlon, rhaid iddynt gynnig mewnwelediad a chydnabod cyd-destun ehangach yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol. Yn ogystal â chadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, dylai archwilwyr ychwanegu gwerth at y sawl a archwilir drwy argymhellion sy'n gwella addasrwydd ac effeithiolrwydd yn ogystal â thynnu sylw at arbedion effeithlonrwydd i'r awdurdodau lleol o ran eu systemau rheoli.

**Tabl 3 – Enghreifftiau ymarferol o arferion cynnil**

| Enghreifftiau ymarferol o ddefnyddio offer a thechnegau cynnil |
| --- |
| Cynllunio rhaglenni archwilio yn seiliedig ar flaenoriaethu risg ac nid ar reoli risg – rhaid i'r dewis o reolaethau swyddogol, neu weithgarwch cysylltiedig â rheolaethau swyddogol, sydd i'w harchwilio fod yn seiliedig ar elfen effaith asesiad risg yn unig.[15] Nid yw archwilwyr yn gyfrifol am reoli risg, felly mae'n wastraffus i'r archwilwyr ystyried tebygolrwydd. Caiff tebygolrwydd ei ystyried yn ddiweddarach, yn ystod yr archwiliad, oherwydd, er mwyn asesu tebygolrwydd, mae'n rhaid i chi gynnwys y lefel bresennol o reolaethau sydd ar waith i reoli risg. Mae hefyd yn annog prosesau sgorio llai cymhleth a all hefyd leihau lefel yr adnoddau yn y broses cynllunio archwiliadau. |
| Cael gafael ar wybodaeth mewn modd amserol – Mae pob aseiniad archwilio'n cynnwys defnyddio holiadur cyn yr ymweliad (PVQ) sy'n gofyn am wybodaeth am bolisïau, prosesau, gweithdrefnau, a data penodol ar weithgareddau cysylltiedig â rheolaethau swyddogol. Caiff y PVQ ei gwblhau a'i ddychwelyd i'w ddadansoddi gan y tîm archwilio cyn yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad. Mae'r tîm archwilio'n cael gwell dealltwriaeth o adnoddau'r sawl a archwilir, a'r systemau rheoli, gan gynnwys caniatáu |

[15] Fel rhan o'r broses rheoli risg, caiff risgiau eu sgorio fel arfer gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol. Risg = Effaith x Tebygolrwydd. Nid yw archwilwyr yn gyfrifol am reoli risg.

dewis meysydd penodol i'w targedu pan fyddant ar y safle. Mae defnyddio'r dull hwn hefyd yn galluogi'r archwilydd i achub y blaen ac yn osgoi gwastraffu amser yn dysgu am systemau rheoli'r sawl a archwilir ar ddechrau'r elfen 'ar y safle' o'r archwiliad.

Diffinio llinellau amser a sianeli cyfathrebu – Mae'n bwysig cytuno a diffinio pa mor hir y bydd archwiliad yn para a phwy fydd yn rhan ohono. Mae'n pennu'r hyn a ddisgwylir a'r cyfrifoldebau gan ganolbwyntio ar gyflawni'r archwiliad yn brydlon a diffinio cyfrifoldebau'r archwilydd a'r sawl a archwilir. Er enghraifft, diffinnir amseriad archwiliadau yn y rhestr flynyddol o raglenni archwilio ac yn y cynllun archwilio ar gyfer pob rhaglen archwilio. Defnyddir amserlenni i ddangos pa mor hir y bydd yr elfen 'ar y safle' yn para. Caiff rolau'r archwilwyr eu nodi yn y cyfarfod agoriadol, a chaiff swyddog cyswllt archwilio[16] ei nodi gan y sawl a archwilir.

Mynediad uniongyrchol at wybodaeth/data – y ffordd fwyaf effeithlon o gael gafael ar wybodaeth/data ac archwilio'r rhain yw trwy fynediad uniongyrchol. Mae hyn yn cael gwared ar yr angen i'r archwilydd gyhoeddi ceisiadau'n gyson ac yn rhyddhau'r sawl a archwilir i gyflawni dyletswyddau eraill. Wrth bennu pa mor dda y cynhaliwyd archwiliad, ystyrir lefel yr effaith/aflonyddwch a achosir i'r sawl a archwilir. Enghraifft dda o hyn yw bod gan archwilwyr fynediad uniongyrchol at systemau rheoli data awdurdodau lleol.

Y defnydd o Gemba[17] – Yng nghyd-destun archwilio systemau cynnal rheolaethau swyddogol, cyfeirir at hyn fel **ymweliad gwirio realiti**. Cynhelir

[16] Y swyddog cyswllt archwilio yw'r person a enwebir gan y sawl a archwilir / yr awdurdod cymwys i weithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y tîm archwilio i eglurhau'r wybodaeth a ddarperir yn y PVQ, gofyn am wybodaeth a rhoi adborth rheolaidd yn ystod yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad.

[17] Gemba yw'r gair Japaneg am y lle go iawn (er enghraifft, y man lle mae digwyddiad newyddion yn digwydd). Y dechneg gynnil yw 'Ewch, Edrychwch a Gweld' beth sy'n digwydd mewn gwirionedd. Yng nghyd-destun archwilio systemau cynnal rheolaethau swyddogol, cynhelir yr archwiliadau ar safle'r

| | |
|---|---|
| | y rhain ar safle'r gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid/bwyd. Cânt eu defnyddio i wirio gwybodaeth ddogfenedig a gofnodwyd gan yr awdurdod lleol, i alluogi swyddogion sy'n cynnal rheolaethau swyddogol i ddangos eu gwybodaeth am weithgareddau gweithredwyr busnesau bwyd, ac i gadarnhau pa mor gynhwysfawr yw'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol. |
| | Dadansoddi gwraidd y broblem (RCA) – Mae'r tîm archwilio'n cynnal gwaith dadansoddi gwraidd y broblem sylfaenol wrth baratoi argymhellion. Anogir y sawl a archwilir i ddefnyddio RCA hefyd wrth baratoi camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion. |

## 2.9 Adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio

2.9.1 Amcan adolygiad rheoli yw cadarnhau bod y system archwilio'n parhau i fod yn addas, digonol ac effeithiol. Dylai gweithgareddau adolygu:

- ystyried a yw'r system archwilio'n gweithredu yn unol â'r bwriad
- nodi cyfleoedd i wella
- nodi diffyg cydymffurfio a monitro camau unioni ac ataliol

2.9.2 Cynhelir adolygiadau o drefniadau rheoli'r system archwilio yn barhaus, ond maent yn digwydd yn benodol yn dilyn pob archwiliad a rhaglen archwilio. Fe'u cynhelir gan y tîm archwilio a gallant gynnwys y gweithgareddau a restrir yn Atodiad D.

2.9.3 Mae cofnod o bob set o gofnodion adolygu wedi'i storio ar SharePoint.[18]

gweithredwyr busnesau bwyd/bwyd anifeiliaid, gan mai dyma lle caiff rheolaethau swyddogol eu cynnal.

[18] System storio dogfennau'r ASB.

# 3. Y Broses Archwilio

## 3.1 Cynllunio archwiliadau

**Cynllun archwilio: cwmpas, amcanion, a meini prawf**

3.1.1 Rhaid cynhyrchu cynllun archwilio ar gyfer pob rhaglen archwilio. Dylai gynnwys y penawdau canlynol:

- Cyflwyniad (gan gynnwys rhesymau dros y rhaglen archwilio)
- Cwmpas, amcan(ion), a meini prawf
- Trefniadau hysbysu
- Dogfennau a ddefnyddiwyd
- Y broses archwilio (gan gynnwys adrodd a gwaith dilynol)
- Adborth
- Cyhoeddi adroddiadau
- Cwynion ac anghydfodau

3.1.2 Rhaid cytuno ar y cynllun archwilio a'i ddosbarthu i'r sawl a archwilir cyn i'r rhaglen archwilio ddechrau.

**Cylch gorchwyl: cwmpas, amcanion, a meini prawf**

3.1.3 Rhaid cynhyrchu cylch gorchwyl ar gyfer pob rhaglen archwilio. Dylai gynnwys y cwmpas, yr amcan(ion), a'r meini prawf.

3.1.4 Rhaid ymgynghori â'r sawl a archwilir ar y cylch gorchwyl cyn i'r rhaglen archwilio ddechrau.

**Y tîm archwilio**

3.1.5 Y prif archwilydd sy'n gyfrifol am ddewis pob tîm archwilio. Bydd y dewis o archwilwyr yn seiliedig yn bennaf ar ba archwilwyr sydd ar gael ac a yw archwilwyr o wledydd eraill (Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban) wedi gofyn am gael dod i wella eu profiad o archwilio neu i gynorthwyo eu datblygiad.

**Mathau o archwiliadau**

3.1.6 Mae dewis pa fath o archwiliad i'w ddefnyddio yn ystod ymweliad archwilio yn benderfyniad pwysig gan y bydd yn pennu faint o adnoddau archwilio fydd eu hangen. Gall arwain at wastraffu adnoddau o ran y tîm archwilio a'r awdurdod lleol. Mae'r mathau o archwiliadau a ddefnyddir gan yr ASB yng Nghymru yn cynnwys:

- Archwiliadau llawn – sy'n cwmpasu'r ystod lawn o weithgarwch rheolaethau swyddogol a gynhelir gan awdurdodau lleol
- Archwiliadau â ffocws – sy'n gallu bod yn seiliedig ar reoliadau, codau ymarfer cyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd, neu ganllawiau ymarfer

**Dulliau archwilio**

3.1.7 Dyma benderfyniad pwysig arall i'w wneud ar y cam cynllunio. Mae dewis pa ddull neu gyfuniad o ddulliau i'w defnyddio yn ystod archwiliad yn gallu cael dylanwad mawr ar lefel y gwerth ychwanegol i'r awdurdod lleol ac ar ba mor ddefnyddiol yw'r dystiolaeth a gesglir. Mae'r ystod o ddulliau a ddefnyddir gan yr ASB yng Nghymru yn cynnwys:

- Asesiad bwrdd gwaith – er enghraifft, gwybodaeth yn yr holiadur cyn yr ymweliad (PVQ), data'r ASB (Arolygon Cynnydd, UKFSS, CSHB), data cyhoeddedig (cynlluniau gwasanaeth a pholisïau gorfodi awdurdodau lleol)
- Gwirio dogfennau – er enghraifft, cofnodion o ymyriadau (archwiliadau, arolygiadau, samplu, cyfarfodydd dilynol, ymchwiliadau i gŵynion), hysbysiadau gorfodi ffurfiol, cofnodion rheoli (gwerthuso hyfforddiant a chymhwysedd, monitro mewnol, awdurdod dirprwyedig, awdurdodiadau, cofnodion monitro darpariaeth gwasanaeth)
- Cyfweliadau – er enghraifft, rheolwyr, swyddogion, gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, gweithredwyr busnesau bwyd, arweinwyr polisi
- Ymweliadau gwirio realiti – hynny yw, ymweliadau â sefydliadau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid neu sefydliadau gweithredwyr busnesau bwyd

### Tystiolaeth archwilio

3.1.8 Mae'r egwyddorion, y diffiniadau a'r dulliau a ddefnyddir yn system archwilio'r ASB yng Nghymru sy'n ymwneud â thystiolaeth archwilio yn seiliedig ar ddogfen gyfeirio rhwydwaith y Systemau Archwilio Cenedlaethol – Tystiolaeth Archwilio.[19]

3.1.9 Rhaid dechrau ystyried pa dystiolaeth y dylid ei chasglu a sut i'w chasglu ar gam cynllunio rhaglen archwilio, a gellir dogfennu hyn mewn protocol archwilio, rhestrau gwirio neu debyg. Mae'n bwysig canolbwyntio adnoddau ar gasglu tystiolaeth sy'n cefnogi canfyddiadau sy'n gysylltiedig â chwmpas ac amcanion yr archwiliad.

3.1.10 Bydd adegau hefyd pan ganfyddir tystiolaeth sy'n nodi materion sydd y tu hwnt i gwmpas ac amcanion yr archwiliad. Dylai'r prif archwilydd ddefnyddio'r dystiolaeth hon i ymchwilio ymhellach i faterion, fel y bo'n briodol, ond nid fel rhan o'r archwiliad lle canfuwyd y dystiolaeth.

## 3.2 Cynnal archwiliadau

3.2.1 Mae Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio'r ASB yng Nghymru yn goruchwylio pob archwiliad ac yn penodi prif archwilydd ar gyfer pob un. Mae'r prif archwilydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Paratoi'r dogfennau gwaith ar gyfer pob archwiliad
- Cadeirio'r cyfarfodydd agoriadol a choli
- Drafftio'r adroddiad archwilio (gan gynnwys argymhellion)
- Cynnal yr archwiliad dilynol i gasglu tystiolaeth i fynd i'r afael ag argymhellion

3.2.2 Cytunir ar rolau pob aelod o'r tîm archwilio wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio.

### Hysbysiad o ymweliadau archwilio

3.2.3 Gwneir cyswllt swyddogol ag awdurdodau lleol i drefnu archwiliadau ar ffurf llythyr sy'n cael ei lunio a'i anfon drwy e-bost at y Prif Weithredwr. Bydd y prif archwilydd yn cysylltu â'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Swyddogion Bwyd

[19] Dogfen gyfeirio rhwydwaith y Systemau Archwilio Cenedlaethol – Tystiolaeth Archwilio

Anifeiliaid/Bwyd Arweiniol cyn anfon unrhyw lythyr. Ar ôl cyhoeddi hysbysiad, rhoddir o leiaf 4 wythnos i awdurdodau lleol ddychwelyd eu holiaduron cyn yr ymweliad neu gyflwyno gwybodaeth benodol. Cyn trefnu dyddiad yr ymweliad archwilio, bydd yr archwilwyr fel arfer yn caniatáu pythefnos ar ôl i'r wybodaeth cyn yr archwiliad ddod i law. Mae hyn fel arfer yn golygu y rhoddir 6 wythnos o rybudd o ymweliad archwilio i'r sawl a archwilir.

**Dogfennau gwaith**

3.2.4 Bydd y tîm archwilio'n paratoi ac yn defnyddio nifer o ddogfennau yn ystod yr archwiliad i gasglu gwybodaeth gan y sawl a archwilir, cofnodi tystiolaeth a darparu gwybodaeth i'r sawl a archwilir.

3.2.5 Yn gyffredinol, bydd y dogfennau canlynol yn cael eu defnyddio:

- Holiadur cyn yr ymweliad (PVQ)
- Cais am restrau swyddogion a ffeiliau penodol / cofnodion sefydliadau
- Amserlen archwilio ar y safle
- Nodiadau'r prif archwilydd yn dilyn y cyfarfod agoriadol
- Nodiadau'r prif archwilydd yn dilyn y cyfarfod cloi
- Rhestr wirio / ffurflenni protocol

**Cyfarfodydd agoriadol a chloi**

3.2.6 Mae cyfathrebu a dealltwriaeth glir rhwng yr archwilwyr a'r sawl a archwilir yn bwysig i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal i foddhad y sawl a archwilir. Mae'n cynorthwyo'r sawl a archwilir i ddeall canfyddiadau'r archwiliad, gan arwain at roi camau gweithredu ar waith yn well er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion.

3.2.7 Mae dau gyfarfod ffurfiol bob amser yn cael eu cynllunio ar gyfer pob archwiliad, sef cyfarfod agoriadol a chyfarfod cloi:

- Cyfarfod agoriadol – defnyddir hyn i gadarnhau'n ffurfiol fanylion y cynllun archwilio (cwmpas yr archwiliad, amcanion, meini prawf), proses ymarferol ar gyfer yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad, diweddariadau i'r amserlen, cwynion, adrodd a gweithdrefn ddilynol.

- Cyfarfod cloi – defnyddir hyn i gyflwyno canfyddiadau'r archwiliad, egluro'r broses sydd ei hangen ar ôl i'r elfen 'ar y safle' ddod i ben, ail-gadarnhau'r prosesau cwyno ac adrodd a'r prosesau dilynol.

**Rhestrau gwirio a ffurflenni protocol**

3.2.8 Gellir defnyddio rhestrau gwirio a/neu ffurflenni protocol yn ystod archwiliadau i restru cwestiynau penodol a/neu feysydd i'w cwmpasu yn ystod yr archwiliad. Maent hefyd yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gofnodi tystiolaeth.

3.2.9 Gall y Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio yn ôl ei ddisgresiwn, ac ar y cyd â'r prif archwilydd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad, benderfynu ar gynnwys unrhyw restrau gwirio a/neu ffurflenni protocol a ddefnyddir, a bydd unrhyw newidiadau yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Dogfennau. Gellir dod o hyd i gasgliad o restrau gwirio a/neu ffurflenni protocol blaenorol ar SharePoint yn y ffolder archif ar gyfer Dogfennau Rheoledig.

**Nodiadau'r archwilwyr**

3.2.10 Gellir ategu rhestrau gwirio a ffurflenni protocol gan nodiadau a gymerwyd gan yr archwilwyr. Mae'r rhain yn ddulliau dilys ar gyfer cofnodi tystiolaeth, darparu adborth i'r sawl a archwilir, ffurfio sail y canfyddiadau archwilio, a nodi'r casgliadau.

**Canfyddiadau'r archwiliad**

3.2.11 Mae canfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar dystiolaeth a gesglir yn ystod yr archwiliad. Defnyddir rhestrau gwirio, aide-mémoires a nodiadau'r archwilwyr i gofnodi tystiolaeth. Gellir defnyddio rhestrau gwirio a/neu ffurflenni protocol yn ystod archwiliadau i restru cwestiynau/meysydd penodol i'w cwmpasu yn ystod yr archwiliad. Maent hefyd yn un o'r dulliau a ddefnyddir i gofnodi tystiolaeth.

## 3.3 Adroddiadau archwilio

3.3.1 Bydd cylch gorchwyl yr archwiliad yn disgrifio sut yr adroddir ar y rhaglen archwilio. Gall yr adroddiadau ar gyfer rhaglen archwilio amrywio o un

adroddiad archwilio i adroddiadau archwilio lluosog ac adroddiad cryno cyffredinol.

3.3.2 Y ffordd fwyaf cyffredin o adrodd ar raglen archwilio yw llunio adroddiad archwilio ar gyfer pob awdurdod lleol yn y rhaglen archwilio. Wrth archwilio gwasanaethau rhanbarthol, mae disgwyl i'r sawl a archwilir rannu adroddiadau o'r fath gyda'u partneriaid eraill yn eu rhanbarth. Os caiff mwy nag un awdurdod lleol ei gynnwys mewn rhaglen archwilio, fel arfer cynhyrchir adroddiad cryno unwaith y bydd yr holl adroddiadau archwilio unigol wedi'u cyhoeddi.

3.3.3 Mae'r amseru ar gyfer drafftio a chyhoeddi adroddiadau i'w weld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 4 – Amseriad ar gyfer adrodd ar archwiliad**

| Y Cam Adrodd | Amser (archwiliad llawn) | Amser (archwiliad â ffocws) |
|---|---|---|
| **Adroddiad drafft** | Cyhoeddir o fewn 12 wythnos ar ôl cyfarfod cloi'r archwiliad | Cyhoeddir o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod cloi'r archwiliad |
| **Sylwadau'r sawl a archwilir ar yr adroddiad drafft** | O fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad drafft ddod i law | O fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad drafft ddod i law |
| **Cyhoeddi'r adroddiad** | O fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad terfynol (wedi'i gyfieithu yn ôl yr angen) ddod i law | O fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad terfynol (wedi'i gyfieithu yn ôl yr angen) ddod i law |

**Adroddiadau unigol**

3.3.4 Pan gynhyrchir adroddiad archwilio unigol, bydd fel arfer yn cynnwys y penawdau a ganlyn:

- Cyflwyniad
- Cefndir
- Rheswm dros yr archwiliad
- Cylch gorchwyl gan gynnwys cwmpas, ac amcanion a meini prawf archwilio'r rhaglen archwilio
- Crynodeb gweithredol
- Canfyddiadau'r archwiliad
- Barn archwilio
- Cynllun gweithredu (gan gynnwys argymhellion)
- Rhestr termau

3.3.5 Mae disgwyl i adroddiadau archwilio awdurdodau lleol fod ar gael yn gyhoeddus. Cyhoeddir adroddiadau archwilio i awdurdodau lleol gyda'r disgwyl y bydd yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno i aelodau etholedig o fewn y fforwm cyhoeddus lleol priodol. Rhoddir copïau o adroddiadau archwilio unigol terfynol awdurdodau lleol, ynghyd ag adroddiadau cryno, neu'r ddau, ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn dibynnu ar natur y rhaglen archwilio.

**Adroddiadau cryno**

3.3.6 Cynhyrchir adroddiad cryno ar ôl pob rhaglen archwilio o ddau neu fwy o awdurdodau lleol. Dylid cyhoeddi adroddiad cryno drafft ddim hwyrach na 3 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad archwilio diwethaf yn y rhaglen archwilio.

3.3.7 Defnyddir adroddiadau cryno i wneud y canlynol:

- Rhoi trosolwg o sut y cafodd y rhaglen archwilio ei chynnal
- Crynhoi canfyddiadau'r holl archwiliadau
- Cyflwyno arferion da a ganfuwyd yn ystod yr archwiliadau
- Nodi a chofnodi argymhellion ar gyfer polisi'r ASB

3.3.8 Fel arfer, bydd cynnwys adroddiadau cryno o dan yr un penawdau â'r rheiny a geir mewn adroddiadau unigol, a gallant hefyd gynnwys y penawdau canlynol:

- Casgliadau
- Crynodeb o'r argymhellion
- Argymhellion ar gyfer yr ASB

**Barn ac argymhellion yn sgil archwiliadau**

3.3.9 Bydd pob adroddiad archwilio'n cynnwys barn gyffredinol gan yr archwilwyr am system yr awdurdod lleol ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau cysylltiedig â'r rheolaeth swyddogol sy'n syrthio o dan gwmpas yr archwiliad. Cymerir y farn o un o'r pedwar categori a ddangosir yn Atodiad E.

3.3.10 Mae'r archwilwyr yn gwneud argymhellion i gynorthwyo gwelliannau i'r system neu i gofnodi problemau sy'n galw am gamau gweithredu. Pan wneir argymhellion, cânt eu cofnodi mewn cynllun gweithredu.

3.3.11 Defnyddir cynlluniau gweithredu gan y sawl a archwilir i gofnodi camau gweithredu / newidiadau mewn polisi, gweithdrefnau ac ati i fynd i'r afael ag argymhellion. Mae cynlluniau gweithredu hefyd yn cynnwys dyddiadau darogan sy'n nodi pryd y mae'r sawl a archwilir yn meddwl y bydd y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Cytunir ar y dyddiadau hyn gyda'r prif archwilydd.

**Cynlluniau gweithredu yn sgil archwiliad**

3.3.12 Pan wneir argymhelliad, caiff ei gofnodi yn yr adroddiad archwilio ac mewn cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu'n manylu ar:

- Yr argymhelliad
- Y camau i fynd i'r afael â'r argymhelliad
- Dyddiadau penodol (mis a blwyddyn) ar gyfer cwblhau camau gweithredu unigol

3.3.13 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r prif archwilydd am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu pan ofynnir am hynny. Mae'r prif archwilydd yn gyfrifol am asesu tystiolaeth newydd, am ddiwygio'r cynllun gweithredu gyda'r wybodaeth

ddiweddaraf, ac am nodi ar y cynllun gweithredu pan fydd camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion wedi'u cwblhau.

## 3.4 Archwiliad dilynol

**Amseriad yr archwiliad dilynol**

3.4.1 Os na wneir unrhyw argymhellion, dilynir y broses ar gyfer llunio'r adroddiad archwilio ac ni fydd angen unrhyw archwiliadau dilynol.

3.4.2 Os oes cynllun gweithredu, fel rheol mae'r prif archwilydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol i gael diweddariad ar gynnydd chwe mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r adroddiad archwilio.


3.4.3 Yn ôl disgresiwn y prif archwilydd, a chyda chytundeb yr awdurdod lleol, gellir cynnal archwiliadau dilynol pan fydd y dyddiadau gofynnol ar gyfer cwblhau camau gweithredu unigol yn codi.

**Tystiolaeth o roi camau gweithredu ar waith**


3.4.4 Rhaid i awdurdod lleol ddarparu tystiolaeth o'i gamau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion. Rhaid cadarnhau'r math o dystiolaeth a'r manylion gofynnol a chytuno ar y rhain gyda'r prif archwilydd. Gall enghreifftiau o'r math o dystiolaeth a dderbynnir gynnwys:

- Cynllun dirprwyo wedi'i ailddrafftio
- Awdurdodiadau
- Cofnodion hyfforddi/cymwysterau
- Diwygiadau i weithdrefnau/polisïau
- Adroddiadau ymyrryd
- Canlyniadau samplau
- Cofnodion cyfarfodydd


# Atodiad A – Proses System Archwilio'r ASB yng Nghymru



# Atodiad B – Proses Graffu'r ASB yng Nghymru



# Atodiad C – Cynllunio Rhaglenni Archwilio Blynyddol ar sail Risg



# Atodiad D – Adolygiad o Drefniadau Rheoli'r System Archwilio

1.1 Dylai'r Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Rheoleiddio gynhyrchu agenda ar gyfer pob adolygiad rheoli, gan gynnwys y meysydd pwnc a restrir isod.

1.2 Dylid cofnodi a chadw cofnodion pob adolygiad ar SharePoint. Dylai'r cofnodion hefyd gynnwys crynodeb o'r trafodaethau ar bob maes pwnc isod.

1.3 Dylai'r dystiolaeth a restrir yn nhabl 9 gael ei pharatoi a'i chyflwyno gan y rheolwr archwilio ym mhob adolygiad.

**Tabl 1 – Pynciau/meysydd i'w trafod yn ystod pob adolygiad rheoli**

| Pwnc/maes: |
|---|
| 1. Digonolrwydd dogfennau systemau archwilio (er enghraifft polisïau, prosesau a gweithdrefnau) |
| 2. Trafodaeth ar statws unrhyw broblemau neu gamau gweithredu sy'n weddill ers y cyfarfod blaenorol |
| 3. Materion allanol a mewnol sy'n effeithio ar y system archwilio |
| 4. Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael a'u digonolrwydd |
| 5. Adolygiad o'r camau gweithredu blaenorol a gymerwyd i wella'r system archwilio a nodwyd |
| 6. Nodi cyfleoedd pellach i wella |

**Tabl 2 – Tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio**

| Tystiolaeth ar gyfer adolygiad o drefniadau rheoli'r system archwilio: |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfodydd blaenorol ar gyfer adolygu trefniadau rheoli |
| 2. Dogfennau systemau archwilio |

3. Adroddiadau archwiliadau Cymru ac archwiliadau perthnasol eraill
4. Holiaduron boddhad cwsmeriaid
5. Cwynion ers yr adolygiad diwethaf
6. Camau unioni ac ataliol, gan gynnwys dilyn hynt a chau pen y mwdwl ar Adroddiadau Gwybodaeth Reoli

# Atodiad E – Categorïau o Farn Archwilio

**Barn Archwilio – Asesu Sicrwydd**

| Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sylweddol (Gwyrdd) | Mae'r system ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol yn dangos bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Canolig (Melyn) | Mae angen gwella'r system ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol er mwyn dangos yn llwyr fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Cyfyngedig (Oren) | Mae angen gwella'r system ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol yn sylweddol er mwyn dangos yn llwyr fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Anfoddhaol (Coch) | Mae angen gwella'r system ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol yn sylweddol er mwyn dangos yn llwyr fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |

# Atodiad F – Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Archwilio | Ystyr 'archwilio' yw archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â threfniadau a gynlluniwyd, ac a yw'r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac a ydynt yn addas i gyflawni amcanion. |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) | Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran annibynnol o'r llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol yn 2000 i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Wrth sôn am ddiogelu buddiannau defnyddwyr, rydym yn golygu sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, bod gennym ni fynediad at ddeiet fforddiadwy a'n bod yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr hyn yr ydym yn ei fwyta, yn awr ac yn y dyfodol. |
| Awdurdod lleol | Sefydliad sy'n gyfrifol yn swyddogol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol. |
| Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) Mis Gorffennaf 2021 | Mae'r Asiantaeth yn cyhoeddi'r Canllawiau Ymarfer hyn i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd statudol o orfodi cyfraith bwyd berthnasol. Mae'r canllawiau hyn yn anstatudol, maent yn ategu'r cod ymarfer statudol, ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar y dull o orfodi'r gyfraith lle gallai ei bwriad fod yn aneglur. |
| Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) Mis Rhagfyr 2016 | Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi'r Canllawiau Ymarfer hyn i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol o orfodi'r gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol. Mae'r canllawiau hyn yn |

| | |
|---|---|
| | anstatudol, maent yn ategu'r Cod Ymarfer statudol, ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar y dull o orfodi'r gyfraith lle gallai ei bwriad fod yn aneglur. |
| Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) Mis Gorffennaf 2021 (FLCoP) | Cyhoeddir y cod hwn fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth bwyd. Mae'n gymwys i Gymru yn unig. |
| Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) Mis Hydref 2014 | Cyhoeddir y cod hwn fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth bwyd anifeiliaid. Mae'n gymwys i Gymru yn unig. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen wedi'i pharatoi gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflenwi gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid i'r gymuned leol. |
| Gweithredwyr Busnesau Bwyd | Dyma'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni yn y busnes bwyd sydd o dan eu rheolaeth. |
| Gweithredwyr Busnesau Bwyd Anifeiliaid | Dyma'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid yn cael eu bodloni yn y busnes bwyd sydd o dan eu rheolaeth. |
| Holiadur Cyn yr Ymweliad (PVQ) | Defnyddir yr holiadur gan archwilwyr yr ASB i ofyn am wybodaeth cyn yr ymweliad archwilio, a hynny er mwyn sicrhau bod yr amser a dreulir gydag awdurdod lleol mor effeithiol â phosib. |
| Hylendid bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n cwmpasu diogelwch ac iachusrwydd bwyd. |
| Hylendid bwyd anifeiliaid | Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan anifeiliaid, gan ystyried ei ddefnydd bwriadedig. |

| | |
|---|---|
| Rhwydwaith y System Archwilio Genedlaethol | Rhwydwaith o swyddogion (archwilwyr) o awdurdodau cymwys cenedlaethol yw Rhwydwaith y System Archwilio Genedlaethol, sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau o systemau rheolaethau swyddogol fel y darperir ar eu cyfer gan Erthygl 6 o Reoliad (CE) Rhif 2017/625. Mae'r rhwydweithiau, sy'n cael eu cadeirio a'u hwyluso gan SANTE F o'r CE, yn cwrdd yn rheolaidd i gyfnewid profiadau wrth weithredu systemau archwilio cenedlaethol ar weithgareddau rheolaethau swyddogol. Yn ystod y sesiynau cyfnewid hyn, y trafodaethau, y gweithdai ac ati, mae'r rhwydwaith yn nodi egwyddorion ac arferion da ac yn cytuno arnynt. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â labelu, cyfansoddiad ac olrheiniadwyedd bwyd. |
| Swyddog Awdurdodedig | Swyddog cymwys a phrofiadol sy'n meddu ar gymwysterau priodol sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, er enghraifft wrth orfodi deddfwriaeth. |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd ac, mewn rhai ardaloedd, safonau bwyd. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |